

Yn gartrefol yn ei gariad

“Os cadwch fy ngorchmynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef.” (adn. 10)

Beth am ddarlenn Ioan 15:1–11 ac yna myfyrio

Un o roddion eraill ein Harglwydd ydy ei orchmynion. Fel y gwelwn yn eglur yn y darlenniad heddiw, roedd Iesu ei hun yn ufuddhau i orchmynion ei Dad. Er bod Iesu'n sicr o gariad a chymeradwyaeth ddiamod ei Dad, doedd e ddim yn ymhyfrydu yn y cariad hwnnw mewn ffordd hunanfodhaus, gan anwybyddu'r cyfrifoldebau mae cariad yn eu hargymell. Drwy gadw gorchmynion ei Dad, roedd Iesu'n aros yn ei gariad – ac roedd e mor gysurus a chartrefol yn y Cariad hwnnw.

Mae'r awydd cariadus yma i wneud ewylllys ei Dad yn batrwm i bob crediniwr. Dysgodd Mab Duw wir gost y fath ufudd-dod drwy'r hyn y bu'n rhaid iddo ei ddiodef. Ond roedd cariad y naill at y llall yn cynnal teimlad o fwriad Iesu. Wedi'r cwbl, onid ydy cariad yn cael ei brofi gan ufudd-dod? Dydy hyn ddim yn golygu bod ein hufudd-dod yn ennyn cariad Duw, fel petai, yng ngeiriau Don Carson, 'ei gariad mor sarrug a chrintachlyd bod angen ei rwygo oddi arno drwy ryw fath o lwgrwobrwyath foesol'. Na, mae cariad at Grist yn gorlifo yn yr awydd i wneud ei ewylllys. Ac nid rhyw ffyddlondeb llym, crintachlyd, parchus mo hyn. Mae'n amlwg o'r darlenniad bod Iesu yn cael llawenydd mawr yn y berthynas yma o ufuddhau i'w Dad. Ac yn yr un modd, gallwn ninnau ymhyfrydu wrth wneud ewylllys Crist a chadw'i orchmynion.

Dydy'r ffurf ddyfnaf ar lawenydd ddim yn dibynnu ar hwyliau neu ddigwyddiadau amserol – yn hytrach, mae'n tarddu o ymroddiad diwyro i Iesu Grist. Gallwch fod yn sicr o hyn: does dim Cristion mwy truenus yn bod na'r un sy'n grintachlyd â Duw yn ei ufudd-dod. Pan fyddwch yn drachtio'n hael ar ei gariad ac yn ufuddhau i'w orchmynion, yna, fel mae nos yn dilyn dydd, byddwch yn yfed yn ddwfn o ffynnon ei lawenydd parhaol.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ex. 19:3–6; Math. 11:25–27; Ioan 8:27–41; 17:1–8; 1 Ioan 2:3–6

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd galwad wreiddiol Israel?
2. Sut mae Iesu'n disgrifio ei berthynas â'i Dad?

Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, fel yr amlgywyd dy gariad yn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, felly hefyd boed i eiriau cariad fod yn gnawd ynof fi, gan fod yn amlwg i bob un y byddaf yn ei gyfarfod heddiw. Yn enw Iesu. Amen.